Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Mark Drakeford AC
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Llawr 5
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

13 Mai 2013

Annwyl Weinidog

CLA235 – Rheoliadau Bwyd (Diwygio Amrywiol a Dirymu) (Cymru) 2013

Ystyriodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yr Offeryn Statudol uchod yn ystod ei gyfarfod ar 15 Ebrill 2013 a chytunodd y dylwn ddwyn i'ch sylw adroddiad y Pwyllgor a wnaed o dan Reol Sefydlog 21.3 ar rinweddau'r Offeryn.

Er ein bod yn fodlon yn gyffredinol â'r offeryn ac nad ydym wedi cyflwyno adroddiad yn ei gylch, roedd gennym rai pryderon am y Memorandwm Esboniadol, ac yn benodol, am y diffyg gwybodaeth a geir ynddo am sut y mae'r *Rheoliadau Bwyd Cyffredinol 2004* sy'n bod eisoes yn darparu'r un warchodaeth i'r cyhoedd â'r rheoliadau amrywiol sy'n cael eu dirymu.

Yn ein barn ni, wrth ddirymu deddfwriaeth sy'n berthnasol i ddiogelwch bwyd oherwydd dyblygu deddfwriaethol, byddai'n ddefnyddiol, ac yn darparu sicrwydd pe baem yn cael eglurhad pendant ynghylch sut y parheir i warchod diogelwch bwyd ac iechyd y cyhoedd i'r un lefel gan y ddeddfwriaeth sy'n dal mewn grym.

Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn ystyried y pwyntiau hyn ac yn anfon eich ymateb i'r Pwyllgor maes o law.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8154
E-bost: olga.lewis@cymru.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

Yn gywir

David Melding AC
Cadeirydd